



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Cylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol Ch1 2023-24

Croeso i'r pumed rhifyn o Gylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol!

Er 1^{af} Ebrill 2023 mae Cydweithrediaid lechyd GIG Cymru a nifer o sefydliadau eraill wedi dod yn rhan o Weithrediaeth GIG Cymru, sy'n swyddogaeth gefnogi genedlaethol newydd. Bydd Gweithrediaeth y GIG yn darparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth gadarn – gan alluogi, cefnogi a chyfarwyddo GIG Cymru i drawsnewid gwasanaethau clinigol yn unol â'r safonau a'r blaenoriaethau cenedlaethol.

Darllenwch mandad a llythyr cylch gorchwyl Llywodraeth Cymru i Weithrediaeth GIG Cymru

Ar hyn o bryd mae'r Rhaglen Delweddu Genedlaethol yn eistedd o fewn Is-adran Rhwydweithiau a Chynllunio'r Weithrediaeth, ac rydyn ni'n ffurio rhan o Strwythur y Rhaglen Diagnosteg sy'n bwydo i mewn i'r Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol. Mae'r strwythur llywodraethu yn dal i gael ei wyntyllu, ond rydyn ni'n dal wedi ymrwymo i'n gweledigaeth 3-5 mlynedd ac yn cyflawni yn erbyn y camau gweithredu a amlinellir yn Datganiad o Fwriad Llywodraeth Cymru o ran Delweddu. Felly, mae'r gwaith yn mynd rhagddo fel arfer ac mae llawer iawn i adrodd yn ôl arno ar gyfer Chwarter 1!

Gobeithio cewch chi flas ar ein

Rhaglen Delweddu Genedlaethol National Imaging Programme

National Imaging Programme Newsletter Q1 2023-24

Welcome to the fifth edition of the National Imaging Programme Newsletter!

As of 1st April 2023 the NHS Wales Health Collaborative and several other organisations became part of the NHS Wales Executive, a new, national support function. The NHS Executive will provide strong leadership and strategic direction – enabling, supporting and directing NHS Wales to transform clinical services in line with national priorities and standards.

Read the Welsh Government's remit letter and mandate to the NHS Wales Executive

The National Imaging Programme currently sits within the Networks and Planning Division of the Executive, and we form part of the Diagnostics Programme Structure feeding into the National Diagnostics Board. The governance structure is still being worked through, but we remain committed to our 3-5 year vision and delivering against the actions outlined in the Welsh Government Imaging Statement of Intent. So it's business as usual and lots to feedback on for Quarter 1!

We hope you enjoy our first newsletter of 2023-24! If you would like to be added to the circulation list, or have general enquiries, please email

cylchlythyr cyntaf yn 2023-24! Os hoffech gael eich ychwanegu i'r rhestr ddosbarthu, neu os oes gennych ymholiadau cyffredinol, anfoneb e-bost ar
NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk

NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk

Diweddariadau ar y Ffrydiau Gwaith

Workstream Updates

Gweithlu ac Addysg

Cyflawniadau Allweddol Ch1 2023/24

- Lansiad swyddogol y 'Model Adeiladu Gweithlu Delweddu GIG Cymru. Strategaeth ar gyfer Datblygu Model ar gyfer y Gweithlu Radioleg yng Nghymru'. Mae'r Strategaeth hon bellach wedi'i chyhoeddi ac mae ar gael ar ein gwefan [yma](#)
- Cafodd Grŵp y Gweithlu Delweddu ac Addysg (IWEG) ei ddirwyn i ben yn ffurfiol ym mis Ebrill. Hoffem ddiolch i'n holl aelodau unwaith eto am eu hymrwymiad a'u cyfraniad i waith y grŵp hwn, ac i ddatblygu'r strategaeth
- Cyfarfu'r Grŵp Trawsnewid y Gweithlu Delweddu ac Addysg (IWETG) am y tro cyntaf ym mis Mai. Cafodd y Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp a Blaenoríaethau'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2023/24 eu trafod a'u cymeradwyo.
- Cyfarfu'r Grŵp Gweithwyr Cefnogi Delweddu am y tro cyntaf ym mis Mai gyda chynrychiolaeth o blith Byrddau lechyd GIG Cymru, Addysg a Gwella lechyd Cymru (AaGIC) a'r Academi Delweddu Genedlaethol (NIAW). Mae'r grŵp wedi cyflwyno cynigion ar gyfer Teitlau Swyddi Cymru Gyfan ar gyfer gweithwyr cefnogi Band 2 a Band 3 ym mae Delweddu ac mae wrthi'n

Workforce and Education

Q1 2023/24 Key Achievements

- Official launch of 'Building the NHS Wales Imaging Workforce Model. Strategy for Developing a Radiology Workforce Model for Wales'. This Strategy has now been published and is available on our website [here](#)
- The Imaging Workforce and Education Group (IWEG) was formally closed in April. We would like to thank all members once again for their commitment and contribution to the work of this group, and to the development of the strategy
- The Imaging Workforce and Education Transformation Group (IWETG) met for the first time in May. The Terms of Reference for the group and Workplan Priorities 2023/24 were discussed and approved.
- The Imaging Support Worker Group met for the first time in May with representation from NHS Wales Health Boards, Health Education and Improvement Wales (HEIW) and the National Imaging Academy (NIAW). The group has put forward proposals for All Wales Job Titles for Band 2 and Band 3 support workers in Imaging and are currently developing All-Wales Scopes of Practice for Band 2 and Band 3 Imaging Support Workers.

datblygu Cwmpasu Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Gweithwyr Cefnogi Delweddu Band 2 a Band 3.

- Mae Dogfen Ganllaw ddrafft ar Godau ESR ar gyfer y gweithlu Delweddu Diagnostig yn awr wedi cael ei ddatblygu gyda'r nod o sicrhau bod yr holl Weithlu Delweddu newydd a chyfrebol yng Nghymru wedi cael eu codio'n gyson ac yn gywir yn y system ESR. Cyflwynwyd y ddogfen hon i'r Grŵp Penaethiaid Proffesiynol Radiograffeg ym Mehefin a chaiff diwygiadau pellach eu gwneud yn awr yn unol â'u hadborth.
- Gwnaed y gwaith cwmpasu cychwynnol ar y potensial i ddatblygu rhaglen hyfforddiant Clinigydd y Fron ar gyfer GIG Cymru. Mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen yn y chwarter nesaf i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Gweithlu ac Addysg, cysylltwch â

Harriet.Ryland@wales.nhs.uk

• A draft ESR Coding Guidance Document for the Diagnostic Imaging workforce has now been developed with aim of ensuring that all new and existing Imaging Workforce in Wales are consistently and correctly coded in the ESR system. This document was presented to the Radiography Professional Heads Group in June and further revisions will now be made in line with their feedback.

• Initial scoping has taken place on the potential to develop a Breast Clinician training programme for NHS Wales. A task and finish group is due to be set up in the next quarter to take this work forward.

For further information on the Workforce and Education Workstream, please contact Harriet.Ryland@wales.nhs.uk

Ffrwd Waith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Defnyddwyr

Cyflawniadau Allweddol Ch1 2023/24

- Cyfarfu'r Fforwm Ansawdd Delweddu Cymru Gyfan ar 3ydd Mai 2023.
- Cafodd y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Fforwm ei loywi a chaiff ei gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.
- Mae'r Achos Busnes ar gyfer costau achredu a staffio QSI bron â chael ei gwblhau; mae'r costau diweddaraf wedi dod i law oddi wrth UKAS. Cânt eu hychwanegu i'r gwaith dadansoddi ochr yn ochr â gwaith terfynol am y

Quality, Safety and User Experience

Q1 2023/24 Key Achievements

- The All Wales Imaging Quality Forum met on 3rd May 2023.
- Terms of Reference for the Forum have been refreshed and are due to be approved at the next meeting.
- The Business Case for QSI staffing and accreditation costs is close to being completed; updated costs have been received from UKAS. These are to be added into the analysis alongside final work on the benefits. Sign off is expected

manteision. Disgwylir iddo gael ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2023.

- Mae'r Ddogfen Cychwyn Prosiectau QSI wedi cael ei gorffen a'i chwblhau yn dilyn sylwadau gan y grŵp.
- Cafodd y ddogfen i ddiweddarwr Arweiniad Uwchsain ei rhannu gydag IESG ac mae allan i gael sylwadau arni.
- Cafodd y Cylch Gorchwyl ar gyfer Grwpiau Ansawdd ei rannu i gael sylwadau arno; cynhelir y cyfarfod cyntaf o'r Grŵp MRI yn rhithiol ar 14eg Mehefin.
- Bu'r Arweinydd Ffrydiau Gwaith yn meithrin cysylltiadau gydag ardaloeedd eraill y Deyrnas Unedig – cyfarfu ag Arweinwyr QSI o Ipswich a Colchester a Rhwydwaith Delweddu Gorllewin Canoldir Lloegr.
- Ymweliad adrannol â Radioleg Ysbyty Brenhinol Dyfnaint a Chaerwysg ddydd Gwener 9fed Mehefin.
- Trafodwyd arweiniad PPE arweiniol yn y cyfarfod diwethaf, gan gydgasglu gweithdrefnau ar draws Cymru.
- Cafodd y pamffled Delweddu Meddygol dwyieithog terfynol ei gylchredeg i'w ddefnyddio.
- Mae'r Arweinydd Ffrydiau Gwaith wedi dechrau mesur cwmpas AI ym maes Radioleg yng Nghymru, gan gydweithredu â Llywodraeth Cymru a'r Hwb Gwyddorau Bywyd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'n ddyddiau cynnar iawn ar hyn a bydd, i ddechrau, yn ymchwilio i'r drefn lywodraethu ar gyfer gweithredu unrhyw AI yn ogystal ag yn archwilio ansawdd y gwasanaethau y bydd yn eu harchwilio ac yn eu hategu yn ogystal â'r risgiau.

in July 2023.

- QSI Project Initiation Document completed and finalised following comments from the group.
- Ultrasound Guidance update document has been shared with IESG and is out for comment.
- Terms of Reference for Quality Groups has been shared for comment; the first MRI Group meeting will take place virtually on 14th June.
- Workstream Lead has been building up links with other areas of the UK – met with QSI Leads from Ipswich and Colchester and the West Midlands Imaging Network.
- Departmental visit to Royal Devon and Exeter Radiology on Friday 9th June.
- Lead PPE guidance discussed at last meeting, collating procedures across Wales.
- Final bilingual Medical Imaging leaflet has been circulated for use.
- Workstream Lead has begun to scope AI within Radiology in Wales, collaborating with Welsh Government and the Life Sciences Hub in Cardiff University. This is currently in its infancy and will initially investigate the governance around any implementation of AI as well as quality checking the services it will provide and compliment as well as the risks.

For further information on the Quality, Safety and user Experience Workstream, please contact James.Triscott@wales.nhs.uk

Cynllunio Adnoddau Strategol

Cyflawniadau Allweddol Ch1 2023/24

Prosiect Blaenoriaethau Cyfalaif ac Offer Delweddu Cenedlaethol (PBCDC)

- Cafodd papur yn crynhoi cam 1 a 2 o'r prosiect ei gylchredeg i Gyfarwyddwyr Cynllunio (DoP) a Chyfarwyddwyr Cyllid (DoF) GIG Cymru. Fe wnaeth aelodau'r tîm hefyd fynychu'r cyfarfod DoF ar 14eg Ebrill a'r Fforwm DoF ar 21ain Ebrill i gyflwyno'r broses werthuso a blaenoriaethu a ddatblygwyd gan y Grŵp NIECP. Cafwyd adborth cadarnhaol o'r ddau gyfarfod, gyda chytundeb bod hwn yn ddull synhwyrol, ochr yn ochr â chais i gael gwybod am unrhyw ddatblygiadau
- Datblygwyd a chytunwyd ar ffrwd prosesau lefel uchel ar gyfer Panel Adolygu PBCDC
- Cwblhawyd treial o'r broses, gyda ffug Banel Adolygu cychwynnol yn cael ei gynnwl ar 25ain Ebrill – sesiwn hybrid oedd hon gyda rhai yn Nhŷ Afon ac eraill yn ymuno drwy MS Teams
- Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i gyvreinio a chwblhau'r ffurflen werthuso yn dilyn y sesiwn gychwynnol, a chynhaliwyd ffug banel arall ar 13^{eg} Mehefin
- Cafodd fersiwn 0.7 o'r ffurflen werthuso ei chymeradwyo i baratoi ar gyfer y Panel Adolygu ffurfiol
- Cafodd Cylch Gorchwyl drafft y Panel Adolygu NIECP ei gymeradwyo yn y ffug Banel

Strategic Resource Planning

Q4 Key Achievements

Equipment and Capital Priorities Project (NIECP)

- A paper summarising phase 1 and 2 of the project was circulated to NHS Wales Directors of Planning (DoP) and Directors of Finance (DoF). Members of the team also attended the DoP meeting on 14th April and the DoF Forum on 21st April to present the evaluation and prioritisation process developed by the NIECP Group. Positive feedback received from both meetings, with agreement this was a sensible approach, along with a request to be kept informed of developments
- A high-level process flow for the NIECP Review Panel was developed and agreed
- A dry run of the process was completed, with an initial mock Review Panel held on 25th April - this was a hybrid session with attendance at River House and others joining via MS Teams
- A task and finish group was established to tweak and finalise the evaluation form following the initial session, and another mock panel was held on 13th June
- Version 0.7 of the evaluation form has been signed off in preparation for the formal Review Panel
- Draft NIECP Review Panel Terms of Reference were approved at the mock Review Panel, these will be tabled for further discussion

Adolygu, caiff y rhain eu cyflwyno i'w trafod ymhellach a'u cymeradwyo yn y Panel Adolygu ffurfiol cyntaf

- Yn dilyn y sesiwn ar 13^{eg} Mehefin, roedd angen adolygu'r pwysoliad a'r mein prawf sgorio ymhellach a sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen arall i gyvreinio'r gwaith. Cynhaliwyd ffug banel terfynol ar 27^{ain} Mehefin ac rydyn ni'n awr wrthi'n trefnu'r panel ffurfiol cyntaf
- Anfonwyd llythyrau at yr holl Fyrddau lechyd a'r Ymddiriedolaethau, drwy'r Cyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddorau lechyd (DoTHS), yn gofyn am enwebiadau i gynrychioli eu sefydliad ar Banel Adolygu NIECP.

Diolch o galon i holl Hyrwyddwyr Offer yr Ymddiriedolaethau a'r Byrddau lechyd sydd wedi ymhwymo llawer iawn o amser i gefnogi'r prosiect hwn a chymryd rhan yn y ffug Banelau Adolygu – rydyn ni'n gwerthfawrogi'n fawr!

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Cynllunio Adnoddau Strategol, cysylltwch â Rachel.Howells6@wales.nhs.uk

and sign off at the first formal Review Panel

- Following the session on 13th June, the scoring criteria and weighting needed further review and another task and finish group was formed to refine the approach. A final mock panel was held on 27th June and we are now in the process of organising the first formal panel
- Letters were sent to all Health Boards and Trusts, via Directors of Therapies and Health Sciences (DoTHS), requesting nominations to represent their organisation on the NIECP Review Panel.

A huge thank you to all Health Board and Trust Equipment Champions who have committed a significant amount of time to supporting this project and participating in the mock Review Panels – it really is much appreciated!

For further information on the Strategic Resource Planning Workstream, please contact Rachel.Howells6@wales.nhs.uk

Gwybodeg, Gwybodaeth a Deallusrwydd Busnes


Rhaglen Caffael System Gwybodeg Radioleg (RCSGR) lechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW).

Informatics, Information and Business Intelligence

Delivery of this workstream is managed via the Digital Health and Care Wales (DHCW) Radiology Informatics System Procurement (RISP) Programme.

Strategaeth i Ddatblygu Model ar gyfer y Gweithlu Radioleg yng Nghymru

Strategy for Developing a Radiology Workforce Model for Wales



Mae'n bleser mawr gan y Rhaglen Delweddu Genedlaethol gyhoeddi bod y Strategaeth i Ddatblygu Model ar gyfer y Gweithlu Radioleg yng Nghymru wedi ei chyhoeddi; dyma'r cyntaf o'i bath i wasanaethau Delweddu yng Nghymru!


Mae'r ddogfen hon yn benllanw llawer iawn o waith caled a chydweithredu rhwng Grŵp y Gweithlu Delweddu ac Addysg, Addysg a Gwella lechyd Cymru (AaGIC) gydag ymgysylltiad helaeth gan gynrychiolwyr Radioleg ar draws Cymru.

I bawb a fu'n rhan o'r gwaith hwn, hoffem eich Llongyfarch a Diolch i chi o waelod calon!

Mae'r Strategaeth yn disgrifio'r siâp sydd ar y gweithlu Radioleg yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'n amlinellu'r heriau sylweddol a wynebir, yn awgrymu rhai atebion ymarferol i gynorthwyo'r rhai sy'n ymgymryd â gwaith cynllunio'r gweithlu, yn darparu nifer o argymhellion allweddol i gefnogi a hwyluso datblygiad y gweithlu, gan gyflwyno'r weledigaeth a rennir ar gyfer gweithlu Radioleg cryf, cadarn a chynaliadwy.

Y Strategaeth yw'r deilliant cyntaf yn y broses o greu Model ar gyfer Gweithlu Delweddu GIG Cymru. Caiff y broses yn awr ei chynllunio a'i hailadrodd ar draws y Gweithluoedd Delweddu ehangach i ddwyn ynghyd strategaeth gynhwysfawr ar gyfer Gwasanaethau Delweddu yng Nghymru, felly mae yna lawer i'w wneud o hyd!

Mae'r Grŵp Trawsnewid y Gweithlu Delweddu ac Addysg (IWETG) wedi cael ei sefydlu i oruchwylio'r trefniadau ar gyfer rheoli a gweithredu'r argymhellion yn y strategaeth. Rydyn ni'n falch iawn o



The National Imaging Programme is delighted to announce the publication of the Strategy for Developing the Radiology Workforce Model for Wales which is the first of its kind for Imaging services within Wales!

This document is the result of much dedicated hard work and collaboration between the Imaging Workforce and Education Group, Health Education and Improvement Wales (HEIW) and with extensive engagement from Radiology representatives across Wales.

To everyone involved in its creation we say a huge Congratulations and Thank You!

The Strategy describes the current shape of the Radiology workforce in Wales, outlines the significant challenges being faced, suggests some practical solutions to assist those undertaking workforce planning, and provides a number of key recommendations to support and facilitate workforce development, setting out the shared vision for a strong, resilient and sustainable workforce for Radiology.

The Strategy is the first output in the process of Building the NHS Wales Imaging Workforce Model. The process will now be planned and repeated across the wider Imaging Workforces to bring together a comprehensive strategy for Imaging Services in Wales, so there is lots still to do!

The Imaging Workforce and Education Transformation Group (IWETG) has been established to oversee the management and execution of the recommendations within the strategy. We are very pleased to report that work to deliver a number of actions has already begun, with a group of

ddweud bod gwaith i gyflawni nifer o gamau eisoes wedi dechrau, gyda grŵp o gynrychiolwyr ar draws Byrddau lechyd Cymreig, Ymddiriedolaethau, AaGIC, Academi Delweddu Genedlaethol Cymru a'r SoR, yn ffurio grŵp prosiect i fwrw ymlaen yr argymhellion o safbwyt y Gweithlu Cefnogi.

Dros y misoedd nesaf y nod fydd sefydlu llawer mwy o brosiectau i helpu i gyflawni ar y strategaeth hon felly cofiwch gadw golwg am gyfleoedd i chi gael gwneud eich rhan!

Darllenwch y Strategaeth [yma](#)

Darllenwch y llythyr gan SRO y Rhaglen Delweddu Genedlaethol a CEO Addysg a Gwella lechyd Cymru [yma](#)


representatives from across Welsh Health Boards, Trusts, HEIW, National Imaging Academy Wales and the SoR, forming a project group to take forward the recommendations relating to the Support Workforce.

Over the coming months we will looking to set up many more projects to help deliver on this strategy so please do keep your eyes open for opportunities to get involved!


Read the Strategy [here](#)

Read the letter from the National Imaging Programme SRO and Health Education and Improvement Wales CEO [here](#)

Cadwch y Dyddiad! Cynhadledd Flynyddol y Rhaglen Delweddu Genedlaethol



Save the Date! National Imaging Programme Annual Conference



Llongyfarchiadau
i Emily
Jarmann! □ □ □

Congratulations
to Emily
Jarmann! □ □ □

Llongyfarchiadau mawr i Uwch Reolwr Prosiectau y Rhaglen Delweddu Genedlaethol, Emily Jarman, a'i gŵr Rhys, ar enedigaeth eu merch fach.

Ganed Ada Jayne ddydd Gwener 16eg Mehefin, yn pwys 7 bwys 1.5 o wns. Mae mam a'r babi yn dod yn eu blaenau'n dda.

Rydyn ni i gyd yn falch iawn drosoch chi ac yn gobeithio cael cyfarfod Ada yn fuan!

Huge congratulations to National Imaging Programme Senior Project Manager, Emily Jarman, and her husband Rhys, on the safe arrival of their daughter.

Ada Jayne was born on Friday 16th June, weighing 7lb 1.5oz. Mother and baby are both doing well.

We are all delighted for you and hope we will get to meet Ada soon!

Newyddion am y Rhaglen

Uchafbwyntiau allweddol eraill o Chwarter 1:

- Fe wnaeth Amanda Evans a Lisa Oyler fynychu'r 12^{fed} Gynhadledd Genedlaethol i Reolwyr Radioleg 'Arweinyddiaeth Dosturiol a Chynaliadwy: Llwybrau at Lwyddiant' yn Llundain ar 18^{fed} Mai
- Gwnaeth y tîm gyflwyniadau cychwynnol yng nghyfarfod Radiograffwyr Arolygol CTMUHB ar 16^{eg} Mai ac yng Nghyfarfod Diogelwch ac Ansawdd CAVUHB ar 18^{fed} Mai
- Cyflwynodd Amanda Evans, Arweinydd Rhaglen y Portffolio Delweddu Cenedlaethol, yng Nghyngres Delweddu ac Oncoleg y Deyrnas Unedig (UKIO) ar 5^{ed} Mehefin, cynhaliwyd y digwyddiad ar 5-7 Mehefin yn ACC Lerpwl.
- Mae'r Rheolwr Rhaglen, James Triscott, yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y gwaith cychwynnol o gwmpasu AI ym maes Radioleg ar draws Cymru a'r ffyrdd posibl y gellid ei weithredu'n ddiogel i'r

Programme News

Other key highlights from Quarter 1:

- Amanda Evans and Lisa Oyler attended the 12th National Conference for Radiology Managers 'Compassionate and Sustainable Leadership: Paths to Success' in London on 18th May
- The team delivered introductory presentations at the CTMUHB Superintendent Radiographers meeting on 16th May and the CAVUHB Safety and Quality Meeting on 18th May
- Amanda Evans, National Imaging Portfolio Programme Lead, presented at the UK Imaging and Oncology (UKIO) Congress on 5th June, the event took place 5-7 June at ACC Liverpool
- Programme Manager, James Triscott, is working with Welsh Government on an initial scope of AI within Radiology across Wales and the potential ways it may be implemented safely in the future

dyfodol

- Daeth datganiadau o ddiddordeb i law am rôl Arweinydd Clinigol y Rhaglen Delweddu, ceir diweddariadau pellach yn y cylchlythyr nesaf
- Cyfarfu'r Grŵp y Penaethiaid Proffesiynol Radiograffeg (Pwyllgor Rheolwyr Radioleg Cymru gynt) am y tro cyntaf ar 19^{eg} Ebrill ac fe wnaethant gytuno ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp hwn sydd wedi'i ailffurfio. Cynhalwyd cyfarfod pellach ar 21^{ain} Mehefin gyda chynrychiolaeth o'r holl Fyrddau Iechyd
- Cyfarfu Grŵp Cyfeirio Clinigol Delweddu Cenedlaethol (CGCCD) ar 28^{ain} Mehefin, lle bu ein cynrychiolwyr clinigol yn trafod eitemau diddorol ar yr agenda
- Bu'r tîm yn cynllunio cynnwys cyffrous ar gyfer Cynhadledd Flynyddol agoriadol y Rhaglen Delweddu Genedlaethol – bydd mwy o wybodaeth, ynghyd â manylion sut i gofrestru ar gael yn fuan!

Gobeithio y cewch chi i gyd haf gwych a chyfile i orffwys o a dadflino!

- Expressions of interest have been received for the role of Imaging Programme Clinical Lead, further updates to follow in the next newsletter

- The Radiography Professional Heads Group (formerly Wales Radiology Managers Committee) met for the first time on 19th April and agreed the Terms of Reference for this reformed group. A further meeting was held on 21st June with representation from all Health Boards

- The National Imaging Clinical Reference Group (NCIRG) met on 28th June, where our clinical representatives discussed some interesting agenda items

- The team have been planning exciting content for our inaugural National Imaging Programme Annual Conference – more information, along with details of how to register to follow!

We hope you all have a fantastic summer and manage to get some time to rest and recharge!

Gwneud eich rhan!

Dilynwch gyfrif Twitter y Cydweithrediad [@CydGIGCymru](#)

Gwefan: [Rhaglen Delweddu Genedlaethol - GIG Cymru](#)
[Gweithrediaeth](#)

Os oes arnoch angen cysylltu ag aelod o dîm y Rhaglen Delweddu Genedlaethol, e-bostiwrch:
[NHSWHC.National.Imaging.P](#)

Get involved!

Follow the Collaborative Twitter account [@NHSWalesCollab](#)

Website: [National Imaging Programme - NHS Wales Executive](#)

If you need to contact a member of the National Imaging Programme team, please email:

NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk

rogramme@wales.nhs.uk

**Rhifyn nesaf – Medi
2023!**

**Next edition –
September 2023!**

NHS Wales Health Collaborative | 1st Floor, River House, Ynys Bridge Court, Gwaelod y Garth,
Cardiff, CF15 9SS United Kingdom

[Unsubscribe helen.james13@wales.nhs.uk](#)

[Update Profile |Constant Contact Data Notice](#)

Sent by nhswhc.commsteam@communications.wales.nhs.uk powered by



Try email marketing for free today!